CAMBRIAN TRAINING COMPANY
CWMNI HYFFORDDIANT CAMBRIAN



# SUSTAINABLE RESOURCE MANAGEMENT APPRENTICESHIPS

*Delivering sector leading qualifications for the industry >>*

Prentisiaethau
Apprenticeships

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

SUPERVISION Leadership Waste Management

WEEE

Operate Segregation Management

Apprenticeships

SUSTAINABLE RESOURCE

Sort & Prepare MANAGEMENT

Collection Collect recyclables recycling Systems Skills

Processing

Manual Handling

Waste Sites APPRENTICESHIPS

# Sutainable Resource Management Apprenticeships...

A skilled, competent workforce is vital for meeting the challenge of an increasingly competitive global economy. With legal and environmental drivers pushing to more sophisticated waste management solutions, it is crucial to facilitate an adequate supply of competent people to develop, maintain and enhance the waste management industry.

The industry is undergoing a substantial period of change and based on widespread agreement on the trend towards the use of more advanced technologies and automation of processes, it has been estimated that a significant additional number of people will be employed in the industry at all levels.

The waste management industry is perceived to have a poor image and this has affected the recruitment drive in the past. The need to attract young people is widely recognised as the industry workforce ages and employees with a wealth of experience approach retirement.

The Apprenticeship in Sustainable Resource Management is open to individuals of any age and does not impose any restrictions to entry. The employer must be confident that the apprentice has the learning potential/capacity, motivation and aptitude to achieve the framework.

There are varying pathways for apprenticeships within sustainable resource management qualification. Learners can choose the general, collection, reception/segregation, processing, wee (white goods) or the re-use pathway route.

**Apprenticeship Qualifications Available:**

* Level 2 & 3 in Sustainable Recycling Activities
* Level 4 in Systems and Operations Management
* Level 4 in Systems and Operations Management (Small Scale Operations)

**What is an Apprenticeship?**
An apprenticeship is a way for young people and adult learners alike to earn while they learn in employment, while gaining a vocational qualification and a real future. Hiring apprentices or training existing staff will help your business to grow your own talent by developing a motivated, skilled and qualified workforce.

An apprenticeship is a programme of learning and qualifications, completed in the workplace that provides employees with the skills, knowledge, confidence and competencies they need to progress in their chosen career or industry.

We believe the key to apprenticeships is providing high quality training that will benefit both apprentices and employers in the workplace.

**Where do they take place?**
Most of the training is ‘on the job’ within the workplace. To achieve an apprenticeship, employees will need to build a portfolio of evidence via an e-portfolio system which shows that they are competent.

Our Training Officers will visit on a regular basis and carry out assessments while your employee, carries out their routine tasks at work. All work produced will be signposted so that employers data will be fully protected.  There will also be a knowledge element to all apprenticeships which can be generated through assessment, written questions or can be recorded digitally.

**Who are they for?**
Apprenticeships are available whether you are being employed as an apprentice in a new job or as part of training at your existing workplace. These programmes are part funded by the European Social Fund through the Welsh Government.
**Please contact us to find what level of funding you are eligible for via email: info@cambriantraining.com**



Cambrian Training Company
Cwmni Hyfforddiant Cambrian

## Level 2 Foundation Apprenticeship in Sustainable Recycling Activities

This qualification intended for those who are involved in recycling activities (waste management). You will have a choice of optional units covering different waste management activities such;

- as collect recyclables and other materials
- sort and prepare recyclables and other materials
- manual handling
- select and use containers for recyclables and other materials

To achieve the diploma, learners must attain a minimum of 37 credits in total. Learners must complete all five mandatory units (22 credits) and another 5 optional units (minimum15 credits).

## Level 3 Apprenticeship in Sustainable Recycling Activities

The structure of the qualification has been designed to enable complete flexibility across the sustainable recycling roles at a team leader/supervisory level. The qualification is also part of the Level 3 Sustainable Resource Management Apprenticeship. Achievement of this qualification demonstrates competence by the learner to operate appropriately and in accordance with employment requirements whilst undertaking a supervisory role.

To achieve the full Diploma the learner must attain a minimum of 46 credits in total. Learners must complete all six mandatory units (35 credits) and at least two units from Group B (7 credits) andone unit from Group C (4 credits).




**"I have challenged myself to change my whole life to one that focuses on my family and providing for them rather than a life of crime," said Sean.**

**"Since starting a Foundation Apprenticeship I have taken every opportunity given to me to progress and create a career for myself and I have recognised that education and training plays a huge part in this."**

Prentisiaethau
Apprenticeships

**T: 01938 555893 | E: info@cambriantraining.com**

## Level 4 Higher Apprenticeship in Systems and Operations Management

This qualification is designed to provide individuals working in management roles on waste sites with the skills to operate their site effectively.

Achievement of this qualification demonstrates competence by the learner to manage the resource management business effectively, ensuring that customers receive a reliable service delivered to a high standard.

**Who is it for?**
* Managers, team leaders or supervisors
* Experienced workers that want evidence of their skills

## Level 4 Higher Apprenticeship in Systems and Operations Management - Small Scale Operations

This qualification is designed to provide individuals working in management roles on small-scale waste sites with the skills to operate their site effectively.

Achievement of this qualification demonstrates competence by the learner to manage a small scale resource management business effectively, ensuring that customers receive a reliable service delivered to a high standard.

**Who is it for?**
* Managers, team leaders or supervisors
* Experienced workers that want evidence of their skills








T: 01938 555893 | E: info@cambriantraining.com

# Business Training Courses

## Operator Competence | Wamitab

### What is the Operator Competence Scheme?

The operator competence scheme (sometimes known as a “WAMITAB” or CoTC) is created to allow permitted waste facilities in England & Wales to indicate they employ technically competent people with the right skills & knowledge to ensure waste sites are complying with Environmental Permitting Regulations (2007).

### Why do I need to complete this Scheme?

The CIWM/WAMITAB Operator Competence Scheme was approved by Defra and the Welsh Government for England & Wales in 2008. Participation in the scheme delivers evidence of the technical knowledge needed on a waste site and can be required by employers based in the waste industry.

## COURSE DETAILS

### Duration

This course is assessed in the workplace and may take from 4 months to 12 months to complete depending on individual & site requirements.

### Fees

Quotations for this course are available by contacting Heather Martin,
**Email:** heather@cambriantraining.com
**Phone:** 07812 009 363

wamitab




**“This is allowing us to offer employment opportunities that are enabling people to turn their lives around, gain training and new skills and provide a sustainable future for them and their families.**

**“Heather Martin from Cambrian Training Company has put a lot of time and effort into training people to a high standard.”**

Steve Harper,
Site Manager, Thorncliffe



**99% of our employers confirmed that apprenticeships fully matched their business training needs**

## SHEA Training Scheme (Waste & Recycling)

The SHEA Passport that is also known as the Safety Health and Environmental Awareness Scheme, was developed by the Energy & Utilities Skills Register (EUSR) in partnership with the recycling and waste industry.

The passport scheme is designed for people who require access to operational sites, both permanent and temporary, including all levels of staff such as; operatives, supervisors and management in the Waste & recycling industry.

It is designed to provide on-site evidence that an individual has demonstrated an appropriate level of knowledge and awareness to health, safety and environmental awareness.

Achieving a SHEA (Waste Management) Passport card takes one day of training and lasts for three years from the date of issue.

### Accreditation

After successful completion of this scheme individuals will be registered on the Energy & Utility Skills egister (EUSR) database and will receive a photo card.

The SHEA (waste management) Scheme is also affiliated with the nationally recognised Construction Skills Certification Scheme (CSCS).

### COURSE STRUCTURE

This one day course consists of eight standard modules that are applicable across the utilities industries and also include two that are specific to the waste and recycling industry. Individuals are encouraged on this course to use their experience & knowledge of workplace health, safety and environmental issues. Brief presentations for each module are followed by a short multiple choice assessment paper. The assessment pass mark for these papers are 80%.

### Getting your EUSR card

After successful completion this training we will issue you with a cover note and register you with EUSR. The SHEA (waste management) card will be issued within 28 days.

### Fees

This course costs **£75 + VAT** payable by cash or cheque.

Please contact Heather Martin to book your place via;

Email: heather@cambriantraining.com
**Phone:** 07812 009 363

# Business Training Courses

# SUSTAINABLE RESOURCE MANAGEMENT APPRENTICESHIPS....

## INDUCTION

### Initial Assessment & Induction Paperwork

To start an apprenticeship with CTC, you will first need to take a literacy & numeracy assessment to enable us to assess your existing level and then provide the appropriate level of support.

We will then discuss your apprenticeship route to make sure it matches your needs.

We will then take some personal details and identification to complete your application.

### Learning Plan & Set Up

In order to make sure your learning goes to plan, we create an individual learning plan, while giving you access to the following online platforms;

E-portfolio
Essential Skills
Health & Safety Level 2

By using online platforms and the latest technology, you can access your learning 24/7.

You will need an email address to access these platforms.

## DELIVERY

### Apprenticeship Framework

Your apprenticeship consists of several elements;

QCF Portfolio
Technical Certificate
Essential Skills
Rights and Responsibilities
Health & Safety

You will be visited regularly by your Training Officer who will assess, support and provide guidance in your workplace.

### Support & Ownership

Our qualified training team will be on-hand to support you throughout your learning journey.

You have complete ownership of your learning and are responsible for building an e-portfolio of evidence towards your qualification.

Online resources are available to help you study and learn. There are also opportunities to attend and compete at various events and competitions, e.g. Worldskills Competitions

## CERTIFICATION & PROGRESSION

### Certification

Upon completion of your apprenticeship framework and all its elements, you will receive your certificates of achievement.

You will receive a framework certificate, as well as a certificate for each certified qualification element.

### Progression

Your learning journey doesn't have to stop here...

You have acquired new skills and knowledge and may want to progress further?

Ask your Training Officer today for progression details.

APPRENTICESHIP DELIVERY FLOWCHART

# PRENTISIAETHAU
# RHEOLI ADNODDAU CYNALIADWY....

## CYNEFINO

**Asesiad Cychwynnol a Gwaith Papur Cynefino**

Er mwyn dechrau prentisiaeth gyda Chwmni Hyfforddiant Cambrian, bydd angen i chi wneud asesiad llythrennedd a rhifedd yn y lle cyntaf i'n galluogi i asesu'ch lefel bresennol ac yna darparu'r lefel gefnogaeth briodol.

Wedyn, byddwn yn trafod eich llwybr prentisiaeth i wneud yn siŵr ei fod yn bodloni'ch anghenion.

Wedyn, byddwn yn cymryd rhai manylion personol a thystiolaeth adnabod i gwblhau'ch cais

**Cynllun Dysgu a Sefydlu**

Er mwyn gwneud yn siŵr fod eich dysgu'n mynd yn ôl y bwriad, rydyn ni'n creu cynllun dysgu unigol, wrth roi mynediad i'r platfformau ar-lein canlynol i chi ar yr un pryd;

E-bortffolio
Sgiliau Hanfodol
Iechyd a Diogelwch Lefel 2

Trwy ddefnyddio platfformau ar-lein a'r dechnoleg ddiweddaraf, gallwch droi at eich dysgu 24 awr y dydd, saith niwrnod y r wythnos. Bydd angen cyfeiriad e-bost arnoch i droi at y platfformau hyn.

## CYFLWYNO

**Fframwaith Prentisiaeth**

Mae'ch prentisiaeth yn cynnwys sawl elfen;

Portffolio QCF
Tystysgrif Dechnegol
Sgiliau Hanfodol
Hawliau a Chyfrifoldebau
Iechyd a Diogelwch

Bydd eich Swyddog Hyfforddiant yn ymweld â chi'n gyson i asesu, cefnogi a rhoi arweiniad yn eich gweithle.

**Cefnogaeth a Pherchnogaeth**

Bydd ein tîm hyfforddi cymwys wrth law i'ch cefnogi ar hyd eich taith ddysgu.

Chi sy'n berchen ar eich dysgu'n llwyr a chi sy'n gyfrifol am adeiladu e-bortffolio o dystiolaeth tuag at eich cymhwyster.

Mae adnoddau ar-lein ar gael i'ch helpu chi i astudio a dysgu.
Ceir cyfleoedd hefyd i fynychu a chystadlu mewn amryw ddigwyddiadau a chystadlaethau, e.e. Cystadlaethau Worldskills.

## CYFLWYNO TYSTYSGRIFAU A DILYNI

**Cyflwyno Tystysgrif**

Byddwch yn cael tystysgrifau o gyflawniad wrth i chi gwblhau'ch fframwaith prentisiaeth a'i holl elfennau.

Byddwch yn cael tystysgrif fframwaith, yn ogystal â thystysgrif ar gyfer pob elfen gymhwyster ardystiedig.

**Dilyniant**

Nid oes rhaid i'ch taith ddysgu stopio fan hyn...

Rydych chi wedi magu sgiliau a gwybodaeth newydd ac efallai byddwch chi eisiau symud ymlaen ymhellach?

Gofynnwch i'ch Swyddog Hyfforddiant heddiw am fanylion symud ymlaen.

PRENTISIAETH
SIART LIF CYFLWYNO

# Cyrsiau Hyfforddiant Busnes

## Gallu'r Gweithredwr | Wamitab

**Beth yw'r Cynllun Gallu Gweithredwr?**
Crëir cynllun gallu'r gweithredwr (a adwaenir weithiau fel "WAMITAB" neu CoTC) i alluogi cyfleusterau gwastraff a ganiateir yng Nghymru a Lloegr i ddangos eu bod yn cyflogi pobl dechnegol gymwys gyda'r sgiliau a'r wybodaeth iawn i sicrhau bod safleoedd gwastraff yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (2007).

**Pam mae angen i mi gwblhau'r Cynllun hwn?**
Cymeradwywyd Cynllun Gallu'r Gweithredwr CIWM/WAMITAB gan Defra a Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2008. Mae cymryd rhan yn y cynllun yn cyflwyno tystiolaeth o'r wybodaeth dechnegol y mae ar safle gwastraff ei hangen ac y gallai fod ar gyflogwyr yn y diwydiant gwastraff ei hangen.

## MANYLION Y CWRS

**Parhad**
Asesir y cwrs hwn yn y gweithle a gall gymryd o 4 mis i 12 mis i'w gwblhau gan ddibynnu ar ofynion unigol a safle.

**Ffioedd**
Mae dyfynbrisiau ar gyfer y cwrs hwn ar gael trwy gysylltu â Heather Martin;
**E-bost:** heather@cambriantraining.com
**Ffon:** 07812 009 363




**"Mae hyn yn caniatau i ni gynnig cyfleoedd gwaith sy'n galluogi pobl i newid eu bywydau, cael hyfforddiant a sgiliau newydd ac yn darparu dyfodol gynaliadwy iddyn nhw a'u teuluoedd.**

**"Mae Heather Martin o Cwmni Hyfforddiant Cambrian wedi rhoi llawer o amser ac ymdrech i hyfforddi pobl i safon uchel."**

Steve Harper,
Rheolwr Safle, Thorncliffe



**99% o'n cyflogwyr wedi cadarnhaodd prentisiaethau yn cydweddu ag anghenion hyfforddi'r busnes**

## Cynllun Hyfforddi SHEA (Gwastraff ac Ailgylchu)

Datblygwyd Pasbort SHEA a adwaenir hefyd fel y Cynllun Ymwybyddiaeth Diogelwch, Iechyd ac Amgylcheddol (Safety, Health and Environmental Awareness) gan y Gofrestr Sgiliau Ynni a Gwasanaethau ar y cyd â'r diwydiant ailgylchu a gwastraff.

Dyluniwyd y cynllun pasbort ar gyfer pobl sydd angen mynediad i safleoedd gweithredol, yn barhaol a dros dro, gan gynnwys pob lefel o staff megis gweithredwyr, goruchwylwyr a rheolwyr yn y diwydiant Gwastraff ac Ailgylchu.

Fe'i dyluniwyd i ddarparu tystiolaeth ar y safle fod unigolyn wedi dangos lefel briodol o wybodaeth ac ymwybyddiaeth i faterion ymwybyddiaeth iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.
Mae cyflawni cerdyn Pasbort SHEA (Rheoli Gwastraff) yn cymryd un diwrnod o hyfforddiant ac yn para tair blynedd o'r dyddiad cyhoeddi.

### Achrediad

Ar ôl cwblhau'r cynllun hwn yn llwyddiannus, bydd unigolion yn cael eu cofrestru ar y gronfa ddata Cofrestr Sgiliau Ynni a Gwasanaethau a byddant yn cael cerdyn ffotograff.

Mae Cynllun SHEA (rheoli gwastraff) yn gysylltiedig hefyd â'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu a gydnabyddir yn genedlaethol.

## STRWYTHUR Y CWRS

Mae'r cwrs undydd hwn yn cynnwys wyth modiwl safonol sy'n berthnasol ar draws y diwydiannau gwasanaethau ac mae hefyd yn cynnwys dau sy'n benodol i'r diwydiant gwastraff ac ailgylchu. Anogir unigolion ar y cwrs hwn i ddefnyddio'u profiad a'u gwybodaeth am faterion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol y gweithle.

Mae papur asesu amlddewis byr yn dilyn y cyflwyniadau byrion i bob modiwl. Marc llwyddo'r asesiad ar gyfer y papurau hyn yw 80%.

### Cael eich cerdyn Cofrestr Sgiliau Ynni a Gwasanaethau.

Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant hwn yn llwyddiannus, byddwn yn rhoi nodyn esboniadol i chi ac yn eich cofrestru gyda'r Gofrestr Sgiliau Ynni a Gwasanaethau. Bydd cerdyn SHEA (rheoli gwastraff) yn cael ei ddosbarthu ymhen 28 diwrnod.

### Ffioedd

Mae'r cwrs yma yn costio £75.00 + VAT dyladwy gyda arian neu siec.

Sicrhewch eich bod wedi cadw'ch lle trwy gysylltu a Heather Martin ar:

**E-bost:** heather@cambriantraining.com
**Ffon:** 07812 009 363

# Cyrsiau Hyfforddiant Busnes

## Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 mewn Gweithgareddau Ailgylchu Cynaliadwy

Bwriedir i'r cymhwyster hwn fod ar gyfer y sawl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ailgylchu (rheoli gwastraff). Bydd gennych ddewis o unedau dewisol sy'n cwmpasu gwahanol weithgareddau rheoli gwastraff, megis:

- casglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu a deunyddiau eraill
- didoli a pharatoi deunyddiau y gellir eu hailgylchu a deunyddiau eraill
- trafod â llaw
- dewis a defnyddio cynwysyddion ar gyfer deunyddiau y gellir eu hailgylchu a deunyddiau eraill

Er mwyn cyflawni'r diploma, rhaid i'r dysgwyr gyrraedd isafswm o 37 credyd i gyd. Rhaid i'r dysgwyr gwblhau pob un o'r pum uned orfodol (22 credyd) a 5 uned ddewisol arall (o leiaf 15 credyd).

## Prentisiaeth Lefel 3 mewn Gweithgareddau Ailgylchu Cynaliadwy

Dyluniwyd strwythur y cymhwyster i alluogi hyblygrwydd llwyr ar draws rolau ailgylchu cynaliadwy ar lefel arweinydd tîm/goruchwylio. Mae'r cymhwyster yn rhan hefyd o Brentisiaeth Lefel 3 mewn Rheoli Adnoddau Cynaliadwy. Mae cyflawni'r cymhwyster hwn yn dangos gallu'r dysgwr i weithredu'n briodol ac yn unol â'r gofynion cyflogaeth wrth ymgymryd â rôl oruchwylio.

Er mwyn cyflawni'r Diploma llawn, rhaid i'r dysgwr gyrraedd isafswm o 46 credyd i gyd. Rhaid i'r dysgwyr gwblhau pob un o'r chwe uned orfodol (35 credyd) ac o leiaf ddwy uned o Grŵp B (7 credyd) ac un uned o Grŵp C (4 credyd).




"Dwi wedi herio fy hun i newid fy holl fywyd i un sy'n canolbwyntio ar fy nheulu a darparu ar eu cyfer yn hytrach na bywyd o droseddu," meddai Sean.

"Er dechrau ar Brentisiaeth Sylfaen, dwi wedi manteisio ar bob cyfle sydd ar gael i mi i wneud cynnydd a chreu gyrfa i fy hun a dwi wedi cydnabod addysg a a hyfforddiant yn chwarae rhan enfawr yn hyn."

Prentisiaethau
Apprenticeships

F: 01938 555893 | E: info@cambriantraining.com

## Prentisiaeth Uwch Lefel 4 mewn Rheoli Systemau a Gweithrediadau

Dyluniwyd y cymhwyster hwn i ddarparu'r sgiliau i unigolion sy'n gweithio mewn rolau rheoli ar safleoedd gwastraff i weithredu eu safle'n effeithiol.

Mae cyflawni'r cymhwyster hwn yn dangos gallu'r dysgwr i reoli'r busnes rheoli adnoddau yn effeithiol, gan sicrhau bod y cwsmeriaid yn cael gwasanaeth dibynadwy a gyflwynir i safon uchel.

**I bwy mae'r cymhwyster?**
* Rheolwyr, arweinwyr tîm neu oruchwylwyr
* Gweithwyr profiadol sydd am dystiolaeth o'u sgiliau

## Prentisiaeth Uwch Lefel 4 mewn Rheoli Systemau a Gweithrediadau - Gweithrediadau Graddfa Fach

Dyluniwyd y cymhwyster hwn i ddarparu sgiliau i'r unigolion sy'n gweithio mewn rolau rheoli ar safleoedd gwastraff graddfa fach i weithredu eu safle'n effeithiol.

Mae cyflawni'r cymhwyster hwn yn dangos gallu'r dysgwr i reoli busnes rheoli adnoddau graddfa fach yn effeithiol, gan sicrhau bod y cwsmeriaid yn cael gwasanaeth dibynadwy a gyflwynir i safon uchel.

**I bwy mae'r cymhwyster?**
* Rheolwyr, arweinwyr tîm neu oruchwylwyr
* Gweithwyr profiadol sydd eisiau tystiolaeth o'u sgiliau

Cambrian Training Company
Cwmni Hyfforddiant Cambrian



**Mae 100% o'n dysgwyr wedi mynegi iddynt fwynhau eu taith dysgu prentisiaeth**





F: 01938 555893 | E: info@cambriantraining.com

# Prentisiaethau Rheoli Adnoddau Cynaliadwy...

Mae gweithlu medrus, cymwys yn hollbwysig i fodloni her economi fyd-eang fwyfwy cystadleuol. Gyda gyrwyr cyfreithiol ac amgylcheddol yn gwthio at atebion rheoli gwastraff mwy soffistigedig, mae'n hollbwysig hwyluso cyflenwad digonol o bobl gymwys i ddatblygu, cynnal a gwella'r diwydiant rheoli gwastraff.

Mae'r diwydiant yn mynd trwy gyfnod sylweddol o newid ac ar sail y cytundeb cyffredin ar y duedd tuag at ddefnyddio technolegau mwy datblygedig ac awtomeiddio prosesau, amcangyfrifwyd y bydd nifer ychwanegol sylweddol o bobl yn cael eu cyflogi ar bob lefel yn y diwydiant.

Ystyrir bod gan y diwydiant rheoli gwastraff ddelwedd wael ac mae hyn wedi effeithio ar yr ymgyrch recriwtio yn y gorffennol. Cydnabyddir ar raddfa eang yr angen i ddenu pobl ifanc wrth i weithlu'r diwydiant heneiddio ac wrth i weithwyr gyda chyfoeth o brofiad agosáu at ymddeol.

Mae'r Brentisiaeth mewn Rheoli Adnoddau Cynaliadwy yn agored i unigolion o bob oedran ac nid yw'n gosod unrhyw gyfyngiadau o ran mynediad. Rhaid i'r cyflogwr fod yn hyderus fod gan y prentis y potensial/gallu i ddysgu, y cymhelliant a'r gallu i gyflawni'r fframwaith.

Mae llwybrau amrywiol ar gael ar gyfer prentisiaethau mewn cymhwyster rheoli adnoddau cynaliadwy. Gall dysgwyr ddewis y llwybr cyffredinol, casglu, derbyn/gwahanu, prosesu, WEEE (nwyddau gwyn) neu ailddefnyddio.

**Cymwysterau Prentisiaeth Sydd Ar Gael:**

* Lefel 2 a 3 mewn Gweithgareddau Ailgylchu Cynaliadwy
* Lefel 4 mewn Rheoli Systemau a Gweithrediadau
* Lefel 4 mewn Rheoli Systemau a Gweithrediadau (Gweithrediadau Graddfa Fach)

### Beth yw Prentisiaeth?

Mae prentisiaeth yn ffordd i bobl ifanc ac oedolion sy'n ddysgwyr i ennill cyflog wrth ddysgu yn eu gwaith, gan ennill cymhwyster galwedigaethol a dyfodol gwirioneddol ar yr un pryd. Bydd cyflogi prentisiaid neu hyfforddi'r staff presennol yn helpu'ch busnes i fagu ei ddoniau ei hun trwy ddatblygu gweithlu uchel ei gymhelliant, medrus a chymwys.

Mae prentisiaeth yn rhaglen ddysgu a chymwysterau, a gwblheir yn y gweithle sy'n darparu'r sgiliau, y wybodaeth, yr hyder a'r cymwyseddau y mae ar weithwyr eu hangen i symud ymlaen yn eu dewis gyrfa neu ddiwydiant.

Credwn mai'r allwedd i brentisiaethau yw darparu hyfforddiant ansawdd uchel a fydd o fudd i brentisiaid a chyflogwyr yn y gweithle.

### Ble cânt eu cynnal?

Gwneir y rhan fwyaf o'r hyfforddiant 'wrth weithio' yn y gweithle. Er mwyn cyflawni prentisiaeth, bydd angen i'r gweithwyr adeiladu portffolio tystiolaeth trwy system e-bortffolio sy'n dangos eu bod yn gymwys.

Bydd ein Swyddogion Hyfforddi'n ymweld yn gyson ac yn cynnal asesiadau wrth i'ch gweithiwr gyflawni ei dasgau arferol yn y gwaith. Bydd yr holl waith a gynhyrchir yn cael ei gyfeirio er mwyn i ddata'r cyflogwr gael ei ddiogelu'n llawn. Bydd elfen wybodaeth i bob prentisiaeth hefyd y gellir ei chreu trwy asesiad, cwestiynau ysgrifenedig neu gellir ei recordio'n ddigidol.

### I bwy maen nhw?

Mae prentisiaethau ar gael, p'un a chewch eich cyflogi fel prentis mewn swydd newydd neu fel rhan o hyfforddiant yn eich gweithle presennol. Ariennir y rhaglenni hyn yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru.

**Cysylltwch â ni i ganfod pa lefel cyllid rydych chi'n gymwys amdani trwy'r e-bost: info@cambriantraining.com** (mae rhaglenni a ariennir yn llawn ond ar gael i bobl 16-24 oed ar bob lefel ac Uwch Brentisiaethau i bob oedran).

**F: 01938 555893 | E: info@cambriantraining.com**

Cambrian Training Company
Cwmni Hyfforddiant Cambrian

GORUCHWYLIAETH Arweinyddiaeth Rheoli Gwastraff

weithredu Trafod a llaw gwahanu WEEE Rheolaeth

Ailgylchu

Prentisiaethau

RHEOLI ADNODDAU

didoli a pharatoi CYNALIADWY

Casglu casglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu Systemau Sgiliau

Prosesu

Safleoedd gwastraff PRENTISIAETHAU

CAMBRIAN TRAINING COMPANY
CWMNI HYFFORDDIANT CAMBRIAN



# PRENTISIAETHAU RHEOLI ADNODDAU CYNALIADWY

*Cyflwyno cymwysterau blaengar y sector ar sector ar gyfer y Diwydiant >>*

Prentisiaethau
Apprenticeships

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund